



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Adolygiad o Ddŵr Ymdrochi yng Nghymru 2019

Dynodi Porth Eirias ym Mae Colwyn, Conwy, yn ddŵr ymdrochi

Mawrth 2019

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Y Gangen Dŵr
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: water@gov.wales
www.wales.gov.uk/consultation

Cyflwyniad

Trosolwg

Mae dyfroedd ymdrochi yn werthfawr o ran y cyfleoedd hamdden maent yn eu cynnig i bobl Cymru ac o ran twristiaeth. Maent hefyd yn ddangosydd cryf o iechyd cyffredinol ardaloedd arfordirol a chyrrff dŵr mewndirol yng Nghymru.

Mae'r Gyfarwydddeb Dŵr Ymdrochi (2006/7/EC) yn ei gwneud yn ofynnol bod dyfroedd ymdrochi yn cael eu dynodi bob blwyddyn a bod ansawdd y dŵr yn y safleoedd hyn yn cael eu monitro drwy gydol y tymor ymdrochi. Yng Nghymru, mae'r tymor ymdrochi rhwng 15 Mai a 30 Medi. Ar hyn o bryd, mae 104 o ddyfroedd ymdrochi wedi'u dynodi yng Nghymru.

Mae'r Gyfarwydddeb yn ceisio amddiffyn iechyd pobl drwy wneud y canlynol:

- dynodi dyfroedd ymdrochi poblogaidd
- monitro ansawdd y dŵr
- rhoi gwybod i ymdrochwyr am ansawdd dŵr
- sicrhau ansawdd dŵr da yn yr holl safleoedd dynodedig dros amser

Diben yr Ymgynghoriad

Diben yr ymgynghoriad oedd gofyn am safbwyntiau ar y cynnig i ddynodi Traeth Porth Eirias ym Mae Colwyn yn ddŵr ymdrochi o 2019 ymlaen.

Cafwyd y cais gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Y cyfnod ymgynghori a dosbarthiad

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad am 6 wythnos rhwng 18 Chwefror a 1 Mawrth 2019. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru ac fe gafodd ei anfon at amrywiaeth helaeth o randdeiliaid.

Ymatebion a ddaeth i law

Cafwyd 8 ymateb i'r ymgynghoriad. Mae rhestr o'r ymatebwyr i'w weld yn Atodiad A y ddogfen hon.

Roedd yr holl ymatebion a gafwyd yn cefnogi'r cynnig i ddynodi Porth Eirias ym Mae Colwyn yn ddŵr ymdrochi o dymor ymdrochi 2019 ymlaen.

Nododd un ymatebydd y byddai'r cynnig yn denu mwy o ymwelwyr i'r ardal, ac y byddai gwobrau glan môr a baeau fel y Faner Las yn sicrhau ymwelwyr bod y dŵr yn addas i nofio ynddo.

Nododd ymatebydd arall ei fod yn gwbl gefnogol o'r cynnig i ddynodi'r traeth yn ddŵr ymdrochi; roedd yn nofio yn yr ardal yn rheolaidd a byddai hyn yn ei alluogi i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynglŷn â phryd mae'n ddiogel i nofio.

Cafodd manteision y gwaith o dynnu carthffos o'r safle eu cydnabod, ac fe nodwyd y byddai dynodi'r traeth yn ddŵr ymdrochi yn syniad ardderchog.

Nodwyd bod hanes hir o nifer fawr o bobl yn ymdrochi ym Mae Colwyn ar hyd llain lydan y traeth diogel a hygyrch. Hefyd, bydd y man arfaethedig ar gyfer samplu ansawdd y dŵr ymdrochi yn rhoi cynrychioliad da o ansawdd y dŵr ym Mhorth Eirias at ddibenion iechyd y cyhoedd.

Nododd un ymatebydd fod cyfleusterau ategol gwych ar y safle a bod y data a ddarparwyd ynghylch defnydd yn ddadl gref dros gynnwys y lleoliad hwn ymhlith y dyfroedd ymdrochi dynodedig.

Codwyd cwestiwn am olchi'r tywod i ffwrdd ar y traeth a beth oedd yn cael ei wneud i adfer hyn?

Ymateb i'r cwestiwn: Mae pob traethlin yn wynebu prosesau arfordirol, sy'n gallu arwain at godi a gostwng lefelau'r traeth dros amser. Roedd y gwaith o adfer y traeth ym Mhorth Eirias, Bae Colwyn, yn cynnwys adeiladu grwyn o gerrig, a fydd yn helpu i sefydlogi'r traeth yn ei gyflwr presennol.

Hefyd, gofynnwyd am wybodaeth gan sefydliadau Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru Welsh Water a Cadwch Gymru'n Daclus fel rhan o'r broses ymgynghori, ac fe gafodd yr wybodaeth honno ei darparu.

Ymatebion i'r sylwadau a gafwyd ynghylch dynodi Traeth Porth Eirias ym Mae Colwyn yn ddŵr ymdrochi

Ar ôl ystyried yr holl ymatebion a gafwyd yn fanwl, yn ogystal â'r wybodaeth a'r dystiolaeth a ddarparwyd, mae Gweinidogion Cymru yn fodlon bod Traeth Porth Eirias ym Mae Colwyn wedi bodloni'r meini prawf a nodir yn rheoliad 3(2) o Reoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013. Felly, mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu dynodi'r traeth yn ddŵr ymdrochi o dymor ymdrochi 2019 ymlaen.

Wrth ddod i benderfyniad ynglŷn â dynodi dŵr ymdrochi, y brif ystyriaeth yw nifer yr ymdrochwyr. Fodd bynnag, nid ydym wedi pennu ffigur ffurfiol gan fod pob dŵr ymdrochi'n wahanol ac ni fyddai un ffigur yn addas ar gyfer pob safle. Rydym yn chwilio am dystiolaeth o niferoedd y nofwyr, pobl yn padlo ar ymyl y dŵr a phobl ar y traeth. Rydym hefyd yn edrych ar dueddiadau'r gorffennol, unrhyw seilwaith neu gyfleusterau a ddarperir, neu fesurau sydd wedi'u cymryd i hybu ymdrochi yn unol â'r hyn a nodir yn Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013.

Gall unrhyw un argymell ardal o ddŵr wyneb sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer ymdrochi i gael ei ddynodi'n ddŵr ymdrochi. Yn y lle cyntaf, rydym yn argymell eich bod yn mynd at yr Awdurdod Lleol oherwydd mae'n debyg y bydd ganddo lawer o wybodaeth ddefnyddiol am draethau yn yr ardal, a'r awdurdod fydd yn gyfrifol am fodloni amryw o ofynion o dan Reoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013 os bydd y dŵr yn cael ei ddynodi'n ddŵr ymdrochi.

Monitro dyfroedd ymdrochi dynodedig

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am fonitro ansawdd dŵr ymdrochi mewn safleoedd sydd wedi'u dynodi'n ddyfroedd ymdrochi yng Nghymru. Pan fydd dŵr wyneb wedi'i ddynodi'n ddŵr ymdrochi, mae gofyn i Gyfoeth Naturiol Cymru ddarparu proffil manwl a rhaglen fonitro ar ei gyfer, yn yr un modd ag y mae'n ei wneud ar gyfer pob dŵr ymdrochi yng Nghymru. Mae proffiliau dyfroedd ymdrochi yn cynnwys disgrifiad o'r dŵr ymdrochi a'r ardal gyfagos, unrhyw afonydd a nentydd sy'n llifo i mewn i bob safle, a manylion ynghylch sut rheolir llygredd ar y safle. Bydd y proffiliau hyn hefyd yn nodi canlyniadau'r dŵr

ymdrochi o ran cydymffurfio ag ansawdd dŵr, ac yn esbonio'r gwaith a wneir gyda phartneriaid eraill er mwyn canfod ble mae angen gwella ansawdd y dŵr. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda chwmnïau dŵr, y sector amaeth ac Awdurdodau Lleol i nodi problemau a allai effeithio ar ansawdd dŵr ymdrochi.

Yn ogystal â hynny, mae'n rhaid i bob Awdurdod Lleol sy'n rheoli dŵr ymdrochi dynodedig sicrhau bod gwybodaeth fanwl am y dŵr ymdrochi ar gael mewn man hygyrch ger y dŵr ymdrochi yn ystod y tymor ymdrochi (15 Mai i 30 Medi).

Hefyd, mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol ddangos rhagor o wybodaeth am safle pob dŵr ymdrochi dynodedig yn ystod y tymor ymdrochi, ar ffurf symbolau dosbarthu ansawdd dŵr.

Dad-ddynodi dyfroedd ymdrochi

Ni chafwyd unrhyw geisiadau i ddad-ddynodi unrhyw ddyfroedd ymdrochi dynodedig yng Nghymru ar gyfer tymor ymdrochi 2019.

Y Camau Nesaf

Byddwn yn rhoi gwybod i sefydliad Cyfoeth Naturiol Cymru am benderfyniad Gweinidogion Cymru i ddynodi Traeth Porth Eirias ym Mae Colwyn yn ddŵr ymdrochi dynodedig, ac yn gofyn iddo baratoi proffil o'r dŵr ymdrochi ac adolygu'r proffil yn gyson.

Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i'r rheini a roddodd o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad ar yr 'Adolygiad o Ddyfroedd Ymdrochi yng Nghymru 2019'.

Atodiad A

Rhestr o ymatebwyr

Cyngor Tref Bae Colwyn

Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau, Cyngor Bwrdeistref Conwy

Partneriaeth Dŵr ac Iechyd Cymru – Y Grŵp Dyfroedd Ymdrochi

Ymatebion gan aelodau o'r cyhoedd (5)